Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

LEWIS, WILLIAM HOWELL (1793? - 1868), gweinidog Annibynnol

Enw: William Howell Lewis
Dyddiad geni: 1793?
Dyddiad marw: 1868
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Annibynnol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Dyfnallt Owen

Ganwyd yng Nghaerfyrddin, yn berthynas i Sarah Lewis, gwraig gyntaf David Peter. Dechreuodd bregethu yn Heol Awst, Caerfyrddin, cafodd ei dderbyn i Goleg Caerfyrddin yn 1814, yn 21 oed, a bu yno hyd 1818. Bu'n weinidog yn Arberth, 1818-21, ac yn athro cynorthwyol yn ysgol y coleg yr un pryd am 'ryw ddwy flynedd neu ragor'; yn Glastonbury, 1821-47; ac yn Brynbuga, 1847-50. Wedi ymddeol, aeth i fyw i Fryste; yr oedd yno o 1858 hyd 1865. Cyflwynodd amryw o lawysgrifau Philip Henry i'r Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin, yn 1863, ynghyd ag argraffiad prin o Destament Groeg Stephanus. Ysgrifennodd *Memoirs of the Life and Labours of the Reverend David Peter.* Bu farw yn 1868.

Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen , (1873 - 1956)

Ffynonellau

Memoirs of the Life and Labours of the Reverend David Peter forty-three years Professor of Theology and Hebrew in the Presbyterian College, Carmarthen and forty-five years minister of the church at Lammas Street (Llundain 1846)

Hanes Eglwys Heol Awst, Caerfyrddin (1926)

cofnodion y Presbyterian Board

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738178

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Owen, J. D., (1953). LEWIS, WILLIAM HOWELL (1793? - 1868), gweinidog Annibynnol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LEWI-HOW-1793

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government